Thomas Becket *c.*1120–1170

Archesgob Caergaint a merthyr

Ganed Thomas Becket yn ardal Cheapside yn Llundain, lle roedd ei dad Gilbert a'i fam Matilda yn dirfeddianwyr, ar 21 Rhagfyr. Normaniaid oedd ei rieni ac iaith yr aelwyd oedd Ffrangeg er y defnyddid Lladin ar gyfer materion swyddogol. Elfennol oedd ei addysg gynnar. Pan oedd yn ddeg oed fe'i hanfonwyd i aros yn ysgol y priordy Awstinaidd yn Merton, Surrey, ac yn ddiweddarach bu'n ddisgybl yn un o ysgolion gramadeg Llundain, efallai St Paul. Pan oedd oddeutu ugain oed treuliodd flwyddyn ym Mharis. Collodd ei dad lawer o'i eiddo o ganlyniad i danau mawr a bu'n rhaid i Becket fynd i weithio gydag Osbert Huitdeniers a oedd yn un o fasnachwyr mwyaf llwyddiannus Llundain, ac yna gyda Theobald, archesgob Caergaint, rhwng 1143 ac 1145. Fe'i hanfonwyd am flwyddyn i astudio'r gyfraith yn Bologna ac Auxerre.

Ym 1154 rhoddodd Theobald archddiaconiaeth i Becket oedd yn cynnwys bywoliaethau Bramfield yn Swydd Hertford, St Mary-le-Strand yn Llundain, Otford yng Nghaint a phrebendau yng nghadeirlannau Llundain a Lincoln a thrwy hyn daeth yn lled gyfoethog. Fe'i penodwyd yn ganghellor i'r Brenin Harri II a daeth y ddau yn gyfeillion agos. Uchafbwynt ei yrfa gyda'r brenin oedd ei gynorthwyo i adennill Toulouse gyda 700 o farchogion o dan ei awdurdod a hynny ym 1159. Yn y dyddiau hynny yr oedd gwleidyddiaeth yn annatod glwm gyda phenodiadau eglwysig. Yn dilyn marwolaeth yr Archesgob Theobald yn Ebrill 1161 bu trafodaeth ddwys pwy fyddai yn ei olynu. Wedi pendroni hir ar ran y brenin etholwyd Becket yn Archesgob Caergaint a thrwy hynny daeth yn arweinydd Eglwys Loegr. Fe'i hordeiniwyd yn offeiriad ar 2 Mehefin 1162 a'i gysegru yn archesgob drannoeth. Yn y cyfnod hwn daeth Becket yn llawer mwy defosiynol a duwiol ei natur. Disgwyliai'r brenin iddo gydsynio â'i holl ofynion, ond nid felly y bu a chododd gwrthdaro rhwng y ddau ohonynt. Gwrthododd Becket arwyddo Cyfansoddiad Clarendon a gwtogai ar annibyniaeth yr offeiriadaeth ac a fyddai'n arwain at lai o gysylltiad gyda Rhufain.

Ffodd Becket i Ffrainc lle yr arhosodd am chwe blynedd. Treuliodd beth amser mewn mynachlog Sistersaidd ym Mhontigny ac yna yn Sens. Yna o ganlyniad i fygythiad o gael ei esgymuno gan y Pab gwahoddodd y Brenin Harri ef yn ôl i Loegr ond yn fuan wedyn bu gwrthdaro eto rhyngddynt. Ym mis Mehefin 1170 coronwyd Harri – mab Harri II – yn frenin yn Efrog gan archesgob Efrog ac esgobion Llundain a Chaersallog (Salisbury). Roedd y weithred hon yn tanseilio awdurdod Caergaint ac felly esgymunwyd y tri fu'n gyfrifol am y coroni.

Treuliodd Harri II y Nadolig yn Bur-le-Roi ger Bayeux ac yn ei rwystredigaeth o ganlyniad i'r hyn oedd yn digwydd yn Lloegr dywedodd, 'What miserable drones and traitors have I nurtured and promoted in my household who let their lord be treated with such shameful contempt by a low-born clerk!' Wrth glywed hyn penderfynodd pedwar marchog y byddent yn mynd i Loegr i ddelio gyda Becket. Ymwelasant â'r Gadeirlan yng Nghaergaint ac wedi sgwrs gas rhyngddynt a'r archesgob ffodd yntau am loches i'r eglwys. Yno wrth yr allor fe'i lladdwyd trwy ergyd galed i'w ben gyda chleddyf ar 29 Rhagfyr 1170 a chladdwyd ei gorff yn ddiseremoni yng Nghapel y Drindod yn y Gadeirlan. Brawychwyd llawer gan ei lofruddiaeth ac yn fuan daethpwyd i'w ystyried yn ferthyr. Dim ond tair blynedd wedi ei farwolaeth canoneiddiwyd ef gan y Pab Alexander III. Yn ystod y blynyddoedd dilynol ei fedd oedd yr atyniad mwyaf poblogaidd i bererinion yn Lloegr.